

## **Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru**

**Dull wedi ei dargedu o wneud penderfyniadau  
wrth reoli buchod sych**

### **Adroddiad terfynol**

*Ebrill 2022*

## Cyflwyniad

Nod therapi dethol i fuchod sych (SDCT) yw lleihau'r therapi eang trwy dargedu'r buchod â heintiad yn eu tethi â gwrthfotig yn unig a dim ond seliwr i'r rhai â phwrs/cader iach. Yn y gorffennol roedd hyn yn dibynnu ar ganlyniadau cyfrif celloedd somatig unigol o gofnodion Ilaeth, cofnodion mastitis, a defnyddio prawf Ilaeth California (CMT) ar y diwrnod sychu. Mae prawf CMT yn ddibynnol ar ddehongliad ac nid ydynt bob amser yn cael eu cynnal yn gywir yn ôl y manylebau ac mae'r SCC o gofnodi Ilaeth misol yn rhoi cyfartaledd y pedwar chwarter a gall fod hyd at fis oed cyn sychu'r fuch.

Mae SDCT yn rhywbeth y gofynnir i'r rhan fwyaf o ffermwyr Ilaeth ei weithredu gan eu contract Ilaeth a'r llywodraeth i helpu i leihau ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn anifeiliaid a phobl. Mae'n ffordd hawdd o leihau'r defnydd o wrthfotig gan fod y rhan fwyaf o ffermydd, yn y gorffennol, wedi defnyddio therapi gwrthfotig cyffredinol i fuchod sych i'r holl fuchod wrth eu sychu beth bynnag oedd eu canlyniadau celloedd somatig a'r achosion mastitis.

Profwyd ers tro werth dibynnu ar wrthfotig i fuchod sych i helpu i glirio unrhyw heintiadau hirhoedlog yn y cyfnod y mae'r fuch yn sych ac mae'n rhan allweddol o'r cynllun pum pwynt ar gyfer mastitis. Trwy ddefnyddio'r cynllun pum pwynt, mae ffermydd Ilaeth y Deyrnas Unedig wedi gweld gostyngiad sylweddol yn lefel celloedd somatig buches y Deyrnas Unedig a mastitis heintus, ac ochr yn ochr â gwelliannau eraill fel systemau fflyshio parlwr, profion blynyddol mewn parlyrau, gwell leinin mewn clystyrau godro, defnyddio selwyr tethi wrth sychu i leihau'r risg o fastitis o gwmpas amser bwrw llo a gwobrau am gael lefel isel yn y fuches (yn y tanc bylc).

*Datblygwyd y rhaglen reoli mastitis pum pwynt yn y Deyrnas Unedig yn ystod yr 1960au gan y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil i Odro (NIRD) gyda'r bwriad o leihau mastitis clinigol ac is-glinigol trwy reoli organebau heintus sy'n achosi mastitis.*

Y Pum pwynt ydynt:

1. Trin a chofnodi achosion clinigol
2. Diheintio'r tethi ar ôl godro
3. Therapi buchod sych
4. Gwaredu achosion cronig o fastitis
5. Cynnal a chadw peiriannau godro'n gyson

Mae'r cynllun Pum Pwynt yn dal yn bwysig heddiw a dylid ei ddilyn gan ychwanegu SDCT ym mhwynt tri. Mae'n bwysig pwysleisio bod cadw cofnodion o achosion mastitis unigol a'r cyfrif celloedd somatig yn y Ilaethiad yn hanfodol wrth wneud penderfyniadau SDCT ac i symud oddi wrth therapi buchod sych i'r buchod i gyd.

Mae'n bwysig i ni fel diwydiant edrych ar ffyrdd o leihau ymwrthedd gwrthficrobaidd ar ffermydd Ilaeth yn y Deyrnas Unedig ac rydym eisoes wedi gweld gwelliannau mawr yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'n dal yn "waith ar y gweill" ac mae angen i'r diwydiant cyfan weithio gyda'i gilydd i gael yr atebion cywir o ran iechyd a lles anifeiliaid a phobl, a rhaid ystyried ochr ymarferol y defnydd ar y fferm.

Mae'r canlynol yn ddarn o gynllun gweithredu Ymwrthedd gwrthficrobaidd y Cenhedloedd Unedig sy'n esbonio'r cyd-destun ehangach i'r prosiect hwn;

*Mae ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yn broblem fyd-eang sy'n effeithio ar bob gwlad a phobl, beth bynnag yw eu cyfoeth neu eu statws. Cydnabyddir graddfa'r bygythiad AMR a'r angen i'w gynnwys a'i reoli yn eang gan lywodraethau gwledydd, asiantaethau rhyngwladol, ymchwilwyr a chwmnïau preifat fel ei gilydd. Mae'r ddogfen hon yn nodi cynllun gweithredu'r Deyrnas Unedig am 2019–2024 i daclo AMR o fewn a thu hwnt i'n ffiniau ein hunain. Fe'i datblygwyd trwy ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid ar draws nifer o wahanol sectorau, mae'n adeiladu ar lwyddiannau ein strategaeth ddiwethaf (2013–2018) ac mae'n cyd-fynd â chynlluniau a fframweithiau gweithredu byd-eang. Yn y pen draw mae'r cynllun wedi cael ei ddylunio i sicrhau cynnydd tuag at ein gweledigaeth 20 mlynedd o ran AMR, lle mae ymwrthedd yn cael ei gynnwys a'i reoli yn effeithiol.*

*Mae'n canolbwyntio ar dair ffordd allweddol o daclo AMR:*

- lleihau'r angen am wrthficrobau a bod yn agored yn anfwriadol iddynt,
- gwneud y defnydd gorau o wrthficrobau; a
- buddsoddi mewn blaengaredd, cyflenwad, a mynediad.

*Byddwn yn adeiladu ar ein llwyddiannau sydd yn sylweddol yn barod wrth leihau'r defnydd o wrthfotigau mewn anifeiliaid trwy weithio i wella iechyd anifeiliaid ac ymdrin â phroblemau afiechydon endemig, a byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o'r llwybrau trosglwyddo ymwrthedd gan gynnwys effaith yr amgylchedd a bwyd.*

**(Rhaglen amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig)**

## **Y Prosiect**

Nod SDCT yw trin buchod unigol gyda gwrthfotig ar sail asesiad o bresenoldeb heintiad yn y deth cyn eu sychu. Yn y prosiect EIP Cymru 'Dull wedi ei dargedu o wneud penderfyniadau wrth reoli buchod sych dethol' hwn mae tri ffermwr yng ngogledd ddwyrain Cymru wedi mynd un cam ymhellach trwy ddefnyddio technoleg newydd a all gynnig dull wedi ei dargedu yn well a all weithio tuag at eu nod o leihau'r defnydd o wrthfotig heb amharu ar iechyd a lles y fuches.

Fe wnaethant ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf trwy gynnal profion gwahaniaethau lewcocyt (MLD) gan ddefnyddio Q Scout Farm Lab. Peiriant diagnostig cludadwy wedi ei brofi yn wyddonol yw Q Scout sy'n sganio samplau llaeth yn ficrosgopig. Mae'n rhoi cyfle i samplo a phrofi pob chwarter cyn sychu i bennu a yw chwarteri unigol angen therapi gwrthfotig i frwydro yn erbyn heintiad yn y deth, neu a allant gael eu sychu gan ddefnyddio seliwr teth mewnol yn unig. Mae canlyniadau'r profion ar gael yn gyflym iawn (samplo a chanlyniadau ar y diwrnod cyn sychu), sy'n golygu y gall rheolwyr stoc llaeth gael data cyfredol am iechyd y pwrs/cader sy'n golygu eu bod yn gallu bod yn hyderus yn eu penderfyniadau ar gyfer pob buwch a phob chwarter.

Cyn y cynllun treialu hwn byddai'r ffermwyr yn dibynnu ar ddata cofnodi llaeth misol neu bob yn ail fis i ddangos cyfrif celloedd somatig unigol ac edrych ar gofnod triniaeth mastitis buchod unigol. Roedd y ffermydd yn defnyddio sail cyfrif celloedd somatig ar gyfer y llaethiad cyfan ar gyfer y fuch honno i fod dan 100 neu 150 a dim triniaeth glinigol ar gyfer mastitis. Mae'n bwysig cofio y gallai'r data cofnodi llaeth olaf fod wedi bod 4-8 wythnos yn ôl. Yr unig offeryn arall y gallent ei ddefnyddio fyddai prawf llaeth Califfornia (CMT) ar y buchod cyn eu sychu. Mae cyfyngiadau i'r prawf hwn gan gynnwys y ffaith mai dim ond cyfrif celloedd somatig dros 400 y mae'n ei ddangos a gall hyn gael ei ddehongli'n wahanol o berson i berson. Am y rheswm hwn roedd y ffermydd yn awyddus i ddefnyddio'r dechnoleg newydd o'r peiriant Q scout.

## **Q scout**

Mae profi gwahaniaethau lewcocyt (MLD) gan ddefnyddio Q Scout Farm Lab yn dynodi mastitis is-glinigol yn gywir trwy ddadansoddi'r gymhareb o fathau o gelloedd gwyn sy'n ymladd yn erbyn heintiad. Trwy samplu a phrofi pob chwarter cyn sychu, mae'r rheolwr godro yn cael gwybodaeth i bennu a yw chwarteri unigol angen therapi gwrthfotig i frwydro yn erbyn heintiad yn y deth, neu a allant gael eu sychu gan ddefnyddio seliwr teth mewnol yn unig. Mae defnyddio dull trin manwl gywir, ar sail data, am bob chwarter yn cynnig y potensial i leihau'r defnydd o wrthfotigau tu hwnt yr hyn a welwyd o'r blaen wrth reoli buchod sych. Mae cyflymder y profi MLD trwy'r Q scout yn allweddol i weithredu SDCT yn llwyddiannus, gyda chanlyniadau'r profion ar gael ar ddiwrnod y samplu, sy'n golygu bod gan reolwyr fynediad at ddata iechyd y pwrs/gader sy'n gyfredol.


Bydd defnyddio'r labordy fferm Q scout yn helpu rheolwyr stoc llaeth i fod yn hyderus yn eu penderfyniadau ar gyfer pob buwch a phob chwarter. Mae hyn yn golygu y bydd chwarter sy'n brwydro yn erbyn heintiad yn cael ei ganfod er bod cyfanswm y celloedd somatig yn y 4 chwarter yn isel (dan 100,000). Os na fydd y chwarter hwn yn cael ei drin, gallai ddatblygu'n achos clinigol o fastitis yn ystod y cyfnod sych. Bydd hyn yn galluogi cynnwys neu beidio cynnwys therapi gwrthfotig ar lefel y chwarter.

### **Profi Gwahaniaethol Lewcocyt Llaeth (Labordy Fferm Q-Scout)**

Gwnaed y profion MLD ar fuchod dethol 24 awr cyn eu sychu gan ddefnyddio Labordy Fferm Q Scout. Y ffermwr wnaeth gymryd y samplau a dadansoddwyd sampl o bob chwarter gan ddefnyddio technoleg ficrosgopig i gyfrif a gwahaniaethu rhwng celloedd imiwn yn y llaeth. Roedd hyn yn rhoi gwerthoedd absoliwt ar gyfer pob un o'r mathau o gelloedd isod:

- a) Lymffocytâu sy'n chwilio am bathogenau.
- b) Niwtroffilâu sy'n ymladd yn erbyn heintiad trwy amgáu'r bacteria ac yna rhyddhau ensymau sy'n lladd y bacteria. Mae cynnydd ym mhresenoldeb niwtroffilâu yn arwydd o fastitis is-glinigol.
- c) Macroffagau sy'n amgáu a threulio gweddillion cellol a phathogenau.

Cynhyrchodd Q Scout MLD ddata yn dangos cyfanswm y cyfrif lewcocyt a'r ganran o bob math o gell oedd yn bresennol. Defnyddiwyd y wybodaeth hon mewn mynegai i greu diagnosis chwarterol o gategori iach neu heintiedig. Dangosir enghraifft o'r data isod yn Nelwedd 1, lle dangosodd profion MLD bod gan y fuwch hon chwarter blaen chwith oedd wedi ei heintio â mastitis is-glinigol, sy'n cael ei ddynodi gan y diagnosis positif. Mae'r diagnosis hwn yn galluogi i'r chwarter blaen chwith gael ei drin am fastitis is-glinigol yn ystod y llaethiad. Cyn defnyddio Q scout MLD byddai chwarter fel hyn wedi mynd heb ddiagnosis (gan fod cyfrif celloedd somatig trwy gofnodi llaeth yn rhoi cyfartaledd y 4 chwarter) ac wedi datblygu'n achos mwy difrifol a chostus o fastitis.




Delwedd 1: Enghraifft o ddata a gynhyrchwyd gan Q Scout MLD yn dangos cyfanswm y cyfrif lewcocyt a'r ganran o bob math o gell oedd yn bresennol.

### Penderfynu ar Driniaeth Buchod Sych

Yna defnyddiwyd y data oedd yn deillio o'r profion Q Scout MLD i roi'r fuwch a'i chwarteri unigol i un o dri grŵp triniaeth:

1. Therapi gwrthfotig a seliwr teth mewanol. Bydd hwn yn cael ei alw'n grŵp rheoli gan mai dyma yw'r rhaglen therapi buchod sych a defnyddir ar draws yr holl ffermydd.
2. Therapi gwrthfotig i un chwarter a seliwr – y tri chwarter arall yn cael eu selio yn unigol. (Dim ond ar un fferm oedd hyn)
3. Seliwr teth mewanol yn unig.
4. Seliwr teth mewanol yn unig.

### Protocol ar gyfer dethol buchod addas ar gyfer seliwr yn unig a'u profi ar y Q scout.



## Prosiect a Ffermydd

Cychwynnodd y prosiect EIP Cymru 'Dull wedi ei dargedu o wneud penderfyniadau wrth reoli buchod sych dethol' yn Rhagfyr 2019 a bu'n rhedeg hyd Ragfyr 2021. Daeth y syniad am y prosiect gan dri ffermwr ar ôl gweld arddangosfa yn sôn am Q scout, a'r canlyniadau a welwyd yn barod ar fferm Neil Evans - Holebrook. Roedd Neil Evans a Tom Bletcher yn awyddus i symud i SDCT ar lefel chwarter ac roedd Steve Massey am ddechrau SDCT gyda hyder yn ei ddewis o fuchod unigol ar gyfer SDCT. Rhwng y tair buches laeth roedd tua 800 o warheg Holstein Friesian yn llaetha.

Yn anffodus bu'n rhaid i Holebrook adael y cynllun treialu, ac o ganlyniad ymunodd Evan Jones o Fferm Hoseley Bank â'r prosiect. Cynyddodd hyn gyfanswm y buchod i tua 1,600.

Mae'r tair fferm:

- mewn ardal ddaearyddol debyg
- yn casglu data iechyd y pws gan ddefnyddio gwasanaethau cofnodi llaeth a ddarperir gan sefydliadau allanol
- yn gweithredu rhaglenni rheoli mastitis yn gyson ar sail argymhellion eu milfeddygon
- yn cael ymweliadau milfeddygol cyson fel rhan o reoli eu buches odro
- wedi profi achosion o fastitis i sicrhau nad oes bacteria heintus mastitis fel Staph Aureus yn bresennol yn y fuches cyn dechrau'r cynllun treialu gan y byddai hyn yn niweidiol i'r prosiect

### 1) Thomas Bletcher, Fferm Argoed Hall, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint

Buches o 450 buwch yn lloia trwy'r flwyddyn yn magu eu stoc cyfnewid eu hunain. Cyfartaledd o 10,500 litr y fuwch y flwyddyn, godro ddwywaith y dydd, cyfartaledd cyfrif celloedd somatig o 154 y flwyddyn yn y tanc bylc. 5-7 o fuchod yn cael eu sychu bob wythnos gan ddibynnu ar y cynnyrch a'r dyddiad lloia. Ar ôl cael eu sychu mae'r buchod yn mynd i badog sych yn y tymor pori neu ar giwbyclau buchod sych ar dywod oddi wrth y fuches odro, ac yna i fuarth gwellt 2-3 wythnos cyn lloia.

### 2) Stephen Massey, Fferm Pentre Isaf, Rhos-y-madoc, Rhiwabon, Wrecsam

Buches o 300 buwch yn lloia trwy'r flwyddyn yn magu eu stoc cyfnewid eu hunain. Cyfartaledd o 8,500 litr y fuwch y flwyddyn, godro ddwywaith y dydd, cyfartaledd cyfrif celloedd somatig o 176 y flwyddyn yn y tanc bylc. 5-7 o fuchod yn cael eu sychu bob wythnos gan ddibynnu ar y cynnyrch a'r dyddiad lloia. Ar ôl cael eu sychu mae'r buchod yn mynd i badog sych yn y tymor pori neu ar giwbyclau buchod sych oddi wrth y fuches odro, ac yna i fuarth gwellt 2-3 wythnos cyn lloia.

### 3) Evan Jones, Ffermydd Hoseley, Marford, Wrecsam

Buches o 1,000 o fuchod yn lloia trwy'r flwyddyn yn magu eu stoc cyfnewid eu hunain. 11,400 litr y fuwch y flwyddyn ar gyfartaledd. Godro dair gwaith y dydd cyfrif celloedd somatig ar gyfartaledd yn 179 y flwyddyn. 10-20+ o fuchod yn cael eu sychu bob wythnos gan ddibynnu ar y cynnyrch a'r dyddiad lloia. Ar ôl cael eu sychu mae'r buchod yn mynd i badog sych yn y tymor pori neu ar giwbyclau buchod sych tywod oddi wrth y fuches odro, ac yna i fuarth gwellt 2-3 wythnos cyn lloia.

## **Cyfrif Celloedd Somatig**

Cofnodir data cyfrif celloedd somatig misol unigol gan sefydliadau allanol NMR neu CIS gan ddefnyddio samplau llaeth cyfansawdd gyda chadwolyn. Sgriniwyd yr holl fuchod oedd yn llaetha yn y buchesi hyn cyn eu sychu gan ddefnyddio'r iechyd pwrs a gasglwyd trwy'r cofnodi llaeth misol hwn a chofnodi achosion clinigol o fastitis ar y fferm.

## **Rhoi'r Triniaethau Buchod Sych**

Gweithredwyd y rhaglen SDCT ar y fferm gan y ffermwyr a'u milfeddygon.

Yr holl driniaethau SDCT yn cael eu rhoi yn wythnosol gan dechnegydd milfeddygol i sicrhau bod hylendid caeth a chydymffurfio trylwyr ar draws y tair fferm. Oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 ar adegau roedd staff y fferm naill ai yn cynnal yr SDCT ar eu ffermydd eu hunain neu yn troi'n ôl at drin pob anifail â gwrthfotig a rhoi seliwr, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau.

Yn ystod y prosiect hwn hyfforddodd y cynghorwyr milfeddygol y ffermwyr a staff y ffermydd i wneud y dasg hon yn annibynnol, er mwyn sicrhau bod gwaddol parhaol ar ôl cwblhau'r prosiect.

## **Casglu Data ar ôl Trin Buchod Sych**

Yn dilyn eu cyfnod sych, roedd y buchod yn cael eu monitro trwy gydol eu llaethiad dilynol i gasglu data am iechyd y pwrs. Y mis cyntaf ar ôl lloia sydd fwyaf allweddol a dyna pryd y mae'n fwyaf tebygol y bydd heintiad yn dod o'r cyfnod sych/amgylchedd lloia.

## **Canlyniadau**

### Fferm Argoed Hall

Dechrau Rhagfyr 2019.

711 o fuchod i gyd wedi eu sychu, 406 gyda gwrthfotigau a seliwr, 305 gyda seliwr yn unig.

29 o'r 406 o fuchod wedi cael triniaeth i un chwarter yn unig gyda gwrthfotig buchod sych (seliwr yn unig yn y tri chwarter arall). Ni wnaeth unrhyw un o'r buchod yma loia â mastitis a dim ond un oedd â chyfrif celloedd somatig ychydig yn uwch nag wrth ei sychu.

72.5% o'r buchod ar wrthfotig + seliwr â chyfrif celloedd somatig is neu tua'r un fath yn y profion ar ôl lloia.

88.1% o'r buchod â seliwr yn unig â chyfrif celloedd somatig is neu tua'r un fath yn y profion ar ôl lloia.

Dim problemau mastitis gyda'r buchod seliwr yn unig wrth eu sychu neu wrth loia.

Arbedion gwrthfotig o £3,110 ar sail bod tiwb yn costio £2.49 yr un.

### Fferm Pentre Isaf

Sychu 517, 362 ar wrthfotig + seliwr a 155 ar seliwr yn unig. Medi 2020 ac Awst 2021 penderfyniad y fferm i sychu'r holl fuchod gyda gwrthfotig a seliwr oherwydd y tywydd a phroblemau hanesyddol gyda mastitis dan yr amgylchiadau hyn.

Anodd cael tystiolaeth gadarn am gyfrif celloedd somatig gan fod y llaeth yn cael ei gofnodi bob yn ail fis. Ond fe wnaeth un fuwch gyda seliwr yn unig ddatblygu mastitis E. coli yn fuan ar ôl ei sychu a chafodd ei thrin yn ôl hynny, ni wnaeth unrhyw fuchod gael mastitis wrth loia.

Arbedion gwrthfotig o £1,543.80 ar sail bod tiwb yn costio £2.49 yr un

### Fferm Hoseley

1,084 o fuchod wedi eu sychu, 835 ar wrthfotigau a seliwr, 249 gyda seliwr yn unig.

Cychwynnodd Fferm Hoseley yn ofalus iawn o ran dethol, a chafodd dwy fuwch â seliwr yn unig fastitis E. coli ychydig ddyddiau ar ôl sychu, hefyd un ar wrthfotig buchod sych a seliwr.

Bu pedwar cyfnod lle rhoddwyd gwrthfotig a seliwr i bopeth, dau oherwydd cyfyngiadau cofid a dim technegwyr yn cael dod i'r fferm, y ddau gyfnod arall oherwydd y tywydd ar y pryd a chynnydd yn y mastitis yn y fuches odro (wedi ei gysylltu â phroblemau yn y parlwr) yn ystod Medi i Hydref 2020 a Mehefin i ganol Medi 2021.

Anodd cael tystiolaeth gadarn am gyfrif celloedd somatig gan fod y llaeth yn cael ei gofnodi bob yn ail fis, ond roedd y canlyniadau 82% yn is neu tua'r un fath ar gyfer seliwr yn unig a 76.2% yn is neu tua'r un fath i fuchod â Therapi Buchod Sych a seliwr.

Arbedion gwrthfotig o £2,480 ar sail bod tiwb yn costio £2.49 yr un.

### **Crynodeb**

Fe wnaeth Q scout ddynodi mwy o fuchod i gael therapi gwrthfotig buchod sych.

Rhwng y tair fferm roedd nifer o fuchod a fyddai ar sail canlyniadau celloedd somatig a heb fastitis clinigol, yn bodloni'r meini prawf ar gyfer seliwr yn unig, ond pan roddwyd prawf trwy'r Q scout, roedd ganddynt ganlyniadau chwarter positif ac felly rhoddwyd gwrthfotigau iddynt. Er bod hyn wedi arwain at fwy o ddefnydd o wrthfotig i'r buchod yma ar y pryd, byddai'r manteision i'w gweld yn y llaethiad canlynol, pan ddylai'r defnydd o wrthfotigau fod yn is, gan y byddai llai o debygolrwydd o gyfrif celloedd somatig uwch a llai o risg o fastitis.

Meini prawf Hoseley a Pentre Isaf ar gyfer SDCT oedd i'r cyfrif celloedd somatig unigol fod yn llai na 150, yn ddelfrydol ar gyfer y llaethiad cyfan neu o leiaf y tri chofnod llaeth diwethaf (mae'r ddwy fferm yn cofnodi bob yn ail fis) a heb unrhyw hanes o fastitis clinigol yn y llaethiad hwnnw.



Maen prawf Argoed Hall ar gyfer SDCT oedd i'r cyfrif celloedd somatig unigol fod yn llai na 100, yn ddelfrydol ar gyfer y llaethiad cyfan neu o leiaf y tri chofnod llaeth diwethaf (misol) a heb unrhyw hanes o fastitis clinigol yn y llaethiad hwnnw.

Roedd pob fferm hefyd yn cael y gair olaf o ran triniaeth i'r fuwch unigol honno. Gallai hynny fod am ei bod yn dal i gynhyrchu llawer o laeth yn ddyddiol, neu ei bod wedi cael problemau mewn llaethiad blaenorol, byddai'r tywydd a pha mor lân oedd y fuwch unigol ar y diwrnod yn cael eu hystyried.

### Fferm Hoseley

Yn y cynllun treialu sychwyd cyfanswm o 1084 o fuchod. Gallai 608 o'r rhain ar sail hanes cyfrif celloedd somatig fod wedi cael seliwr yn unig, ond ar ôl prawf Q scout a phenderfyniad y fferm dim ond i 249 y rhoddwyd seliwr yn unig (41%). O'r 359 a gafodd brawf positif ar Q scout, roedd 93 yn bositif yn un chwarter yn unig (26%).

### Pentre Isaf

Yn y cynllun treialu sychwyd cyfanswm o 517 o fuchod. Gallai 397 o'r rhain ar sail hanes cyfrif celloedd somatig fod wedi cael seliwr yn unig, ond ar ôl prawf Q scout a phenderfyniad y fferm dim ond i 155 y rhoddwyd seliwr yn unig (39%). O'r 242 a gafodd brawf positif ar Q scout, roedd 45 yn bositif yn un chwarter yn unig (18.6%).

### Argoed Hall

Yn y cynllun treialu sychwyd cyfanswm o 711 o fuchod. Gallai 462 o'r rhain ar sail hanes cyfrif celloedd somatig fod wedi cael seliwr yn unig, ond ar ôl prawf Q scout a phenderfyniad y fferm dim ond i 305 y rhoddwyd seliwr yn unig (66%). O'r 157 a gafodd brawf positif ar Q scout, roedd 32 yn bositif yn un chwarter yn unig (20.4%), derbyniodd 29 o'r buchod yma wrthfotig yn un chwarter a seliwr a chafodd y tair buwch arall wrthfotig a seliwr ym mhob chwarter (roedden nhw'n fuchod  $\frac{3}{4}$  yn barod).

Y protocol a gytunwyd rhwng y fferm a'r milfeddyg yn Hoseley a Pentre Isaf oedd trin unrhyw fuchod oedd â phrawf Q scout positif, hyd yn oed os oedd mewn un chwarter yn unig, gyda therapi Buchod Sych. Felly rhoddwyd gwrthfotig a seliwr i bob chwarter, y prif reswm oedd eu bod yn newydd i SDCT.

Roedd Argoed Hall wedi bod yn defnyddio SDCT yn llwyddiannus ers rhai blynyddoedd ac am ddefnyddio'r cynllun treialu yma i ddynodi unrhyw fuchod oedd â dim ond un chwarter positif yn y prawf, felly eu polisi hwy oedd trin y buchod yma gydag un chwarter positif gyda gwrthfotig a seliwr, roedd y tri chwarter arall yn cael seliwr yn unig.

## **Peiriant Q scout - crynodeb**

### Aqweddau Cadarnhaol

- Pot samplu rhwydd ar y fferm, diffiniad clir o'r chwarteri
- Trosglwyddo'n gyflym i'r sleidiau samplau i'w dehongli
- Canlyniadau i fuchod unigol mewn llai na munud
- Canlyniadau clir – gwyrdd yn golygu negyddol a choch yn golygu positif

- Gallu llwytho 15 sleid i'r peiriant ar unrhyw adeg, a bydd y peiriant yn gweithio trwyddynt heb fod angen eu rhoi bob yn un. Mae hyn yn effeithlon iawn o ran amser, yn arbennig i fuchesi mawr sy'n sychu nifer fawr o fuchod ar y tro.
- Gellid ei ddefnyddio gan grŵp o ffermwyr neu filfeddygfa.
- Canlyniadau mwy penodol a chyson mewn cymhariaeth â CMT.

#### Negyddol:

- Drud i'w bryn a'i redeg gyda'r sleidiau. Nid oes darparwr yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd felly rhaid i'r sleidiau gael eu mewnfario o'r UDA ar gost o £4 y sleid, gydag un sleid yn cael ei defnyddio i bob buwch (pris 2021)
- Dim cefnogaeth yn y Deyrnas Unedig petai'r peiriant yn methu.
- Angen iddo fod mewn swyddfa, mewn cymhariaeth â CMT y gellir ei wneud yn y parlwr.

#### **Ystyriaethau pellach cyn dewis SDCT**

##### Trafodaeth gyda milfeddyg am addasrwydd y fuches, gan asesu mewn meysydd fel –

- Lefel Cyfrif Celloedd Somatig y bylc.
- Cofnodi llaeth unigol – misol/bob deufis neu wrth loia mewn bloc llaeth y tri mis diwethaf, cofnodi celloedd somatig cyn sychu.
- Bacterioleg mastitis.
- Cofnodion mastitis y fferm.
- Hyfforddi staff i roi'r selwyr.
- Contractau llaeth.

#### **Ystyriaethau eraill**

- Siediau/cyfleusterau tu allan i fuchod ar ôl eu sychu.
- Cyfradd stocio.
- Tywydd.
- Glanweithdra'r parlwr i sychu buchod ar seliwr yn unig a'r ardal y maent yn aros ynddi.
- Yr amser y mae buchod yn aros rhwng cael eu godro a'u sychu.
- Gweithdrefn i'r buchod ar ôl eu sychu - glanweithdra'r ardal, pellter o'r parlwr (i osgoi ysgogi llaeth) yn ddelfrydol dim ymyrraeth bellach (fel trimio traed).
- Presenoldeb pryfed a gweithdrefnau trin.
- Cynnyrch llaeth y fuwch wrth ei sychu.
- Pa mor lân yw'r fuwch wrth ei sychu.
- Natur y fuwch – os yn debygol o gicio, mwy diogel rhoi tiwb o wrthfotig a seliwr gan fod risg y bydd baw yn mynd i mewn wrth sychu.

## Casgliad


Rhoddodd Q scout hyder i'r ffermydd eu bod yn sychu eu buchod yn y modd cywir.

Dylai contractau a phrynwyr llaeth ystyried y trothwy ar gyfer SDCT ar sail buchesi unigol; gan ystyried y siediau, cynnyrch y buchod ac yn y blaen, a gweithio gyda'r cleient a'i filfeddyg i osod targedau realistig.

Gall y tywydd gael effaith mawr ar straen a'r amodau i'r gwartheg ac edrych ar gofnodion y fferm i ddeall pryd y bydd problemau hanesyddol i ailasesu'r cynlluniau ar gyfer SDCT.

Isod mae graff gan CIS o'r buchesi sydd wedi eu cofnodi ganddynt. Mae'r tueddiadau cyfrif celloedd somatig yn dangos bod cynnydd yn ystod misoedd yr haf ar gyfer cynhyrchwyr CIS yn y Deyrnas Unedig sy'n amlygu pwysigrwydd cynllunio rhagweithiol cyn i broblemau godi.

### Seasonal Trend Graph



Mae cadw cofnodion yn hollbwysig o ran dethol. Nid yw SDCT yn hollol heb risgiau ond gyda hyfforddiant cywir ar gyfer ei roi yn lân, cadw cofnodion a defnyddio technoleg newydd, gellir lleihau'r risgiau hyn.

Rhaid i'r diwydiant llaeth wneud popeth o fewn ei allu i leihau'r defnydd o wrthfotig ac mae angen i filfeddygon, contractwyr llaeth a ffermwyr weithio gyda'i gilydd i wneud gwelliannau. Mae pob fferm yn wahanol a dylent weithio ar eu cynllun unigol eu hunain gyda'u milfeddyg i fod yn addas i'w system. Mae rhesymau iechyd ac ariannol dros leihau'r defnydd o wrthfotigau ar ffermydd.